# Cwm Taf Morgannwg

## Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol (GCCTRh)

**9 Mehefin 2021** – (Teams Microsoft)

## Cofnodion

| Rhif Eitem | |
|---|---|
| 1 | **Croeso a Datgan Buddiannau**<br>**Ymddiheuriadau**:<br>Jennifer Ellis<br>Julie McCarthy<br>Louise Davies<br>Luke Takeuchi<br>Natalie Morgan Thomas<br>Paul Mee<br>Rachel Honey Jones<br>Sarah O'Keefe<br>Suzanne Lewis-Abbott<br>Tim Thomas |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau gweithredu:**<br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.<br><br>**Camau Gweithredu: Adolygiad o Ddatganiad Blynyddol GCCTRh (KF)**<br>Dychwelodd aelodau'r GCCTRh eu sylwadau ar y datganiad rhanbarthol i KF. |
| 3 | **Adroddiad a Chynllun Gwaith y GCCTRh:**<br><br>**Adroddiad LIC parthed 2020 i 2021**<br>Anfonodd Kim Flower, y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol (CDRh), adroddiad byr i Lywodraeth Cymru yn amlinellu cyflawniadau'r bartneriaeth yn 2020/21.<br><br>**Datganiad Blynyddol GCCTRh CTM 2021/22**<br>Bellach, mae Datganiad Blynyddol Rhanbarthol GCCTRh CTM ar gyfer 2021 i 2022 wedi'i gyflwyno i LIC.<br><br>**Cynllun Gwaith** - Mae **cynllun gwaith ar gyfer 2021/2022** wedi'i ddrafftio ac yn agored i sylwadau. |
| 4 | **Datblygu Prosiectau Rhanbarthol:**<br><br>Cyflwynodd y GCT ddiweddariad ar brosiectau rhanbarthol newydd a phrosiectau arfaethedig:<br><br>**4.1 Newydd - Tîm Iechyd Cymhleth Rhanbarthol (MH & SM)**<br>Rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiad y prosiect hwn a ariannwyd yn wreiddiol trwy Gyllid Cam 2 y pandemig COVID-19.<br>Mae'r tîm gweithredol bellach wedi'i sefydlu i gynnwys:<br>• Ymarferydd Nyrsio Cyffredinol a ariannwyd gan Fwrdd Iechyd CTM;<br>• Dau Nyrs Arbenigol - Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau;<br>• Grŵp Llywio a'i Grŵp Gweithredol Cysylltiedig sy'n gyfrifol am reolaeth. Mae yna hefyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wahân sy'n casglu data.<br><br>Ar ran y GCCTRh, diolchodd RL (y Cadeirydd) am eu gwaith caled a'u hymdrechion i ddatblygu'r Tîm Partneriaeth hwn.<br><br>**4.2 Y potensial ar gyfer datblygu Prosiect Rhanbarthol newydd 21/22 - Hyfforddiant.**<br>Mae arweinwyr y GCT yn ystyried darparu cyfres o "arferion gorau" fel elfennau o'r hyfforddiant i staff y rheng flaen a'r staff cymorth. Mae'r drafodaeth ynghylch hyn newydd gychwyn ac mae arweinwyr rhanbarthol y GCT yn ystyried y prosiect o ran ei ymarferoldeb a'i berthnasedd strategol. |

Cafwyd awgrymiadau gan aelodau o'r GCCTRh ynghylch pynciau y gellid eu hystyried ar gyfer yr hyfforddiant:

- Deddfwriaeth tai a pholisi digartrefedd - gan gynnwys Deddf Tai Cymru;
- Trawma;
- Iechyd Meddwl a Cham-drin Sylweddau;
- Iechyd a Llesiant.

Mae Arolwg Ymgynghorol wrthi'n coladu barn darparwyr cymorth a bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

4.3 **<u>Cynnydd y "Prosiectau Parod"</u>**

1. **Peilot Cwmpasu a Datblygu BAME**

Cytunwyd ar brosiect peilot byrdymor a gaiff ei gynnal ar sail ranbarthol ar draws Cwm Taf Morgannwg. Bydd yn parhau tan ddiwedd mis Mawrth 2022. Mae BAWSO wedi'i gontractio ar gyfer y prosiect hwn a bydd yn nodi anghenion arbenigol y boblogaeth BME ac yn ystyried effaith yr arferion diwylliannol hynny sy'n achosi niwed. Fel rhan o'r prosiect hwn, darperir cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i ddioddefwyr BME os ydynt dan fygythiad neu mewn perygl o: Gam-drin Domestig, Priodasau Gorfodol, Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd, FGM (Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod).
Bydd yn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr BME ar gyfer y materion canlynol:

- cynllunio diogelwch (dioddefwr a theulu);
- tai, mynediad i fudd-daliadau;
- mewnfudo – yr hawl i breswylio/prawf preswyl arferol;
- dyled/ôl-ddyledion;
- cyrchu cymorth cyfreithiol;
- cefnogaeth iaith.

Bydd canlyniadau'r peilot hwn yn llywio penderfyniadau caffael y dyfodol. Mae'r prosiect yn cynnwys cyllid o ychydig dros £10,500 a ddarperir trwy VAWDASV CTM. Mae'n ofynnol hefyd i BAWSO baratoi adroddiad o'u hymarfer a'u data cwmpasu, bob chwarter i'r GCCTRh.

**2. Prosiect Cwmpasu a Datblygu LGBGTQ+**

Mae arweinwyr y GCT yn ystyried y potensial o gontractio prosiect ymchwil byrdymor a fydd yn canfod y galw am wasanaethau ac anghenion penodol y cleientiaid LGBGTQ+ o ran tai yn rhanbarth CTM.
Ar hyn o bryd, mae Llamau yn rheoli prosiect cyffelyb yng Ngogledd Cymru a chyflwynwyd adroddiad ar ddarpariaeth gyfredol y prosiect hwnnw i'r GCCTRh.
Mae swydd-ddisgrifiad drafft yn cael ei lunio a bydd yr amlinelliad hwn o'r prosiect yn llywio manylion y contract posib.
Gofynnodd y Cynghorydd Lewis (Cadeirydd) am gynnwys y prosiect fel rhan o agenda'r grŵp yn y dyfodol a rhoddodd ganiatâd i fwrw ymlaen â'r awgrym hwn.

5 **Tai/Digartrefedd**

Mater allweddol i'r sector tai ar yr adeg hon yw darparu digon o letyau addas ar gyfer y cynnydd mawr yn nifer y digartref. Mae diffyg tai addas i ddiwallu'r angen cynyddol wedi'i nodi ar draws y rhanbarth.
Mae'r holl awdurdodau lleol yn y broses o ddatblygu eu Strategaethau Tai a Digartrefedd newydd a chyhoeddir y rhain erbyn Ebrill 2022.

5.1 **Pen-y-bont ar Ogwr** RJ

Ar hyn o bryd, maen nhw'n delio â niferoedd mawr sy'n ddigartref ac mae nifer uchel o ddefnyddwyr y gwasanaeth presennol yn cael eu cartrefu mewn lletyau dros dro.
Yn ystod y cyfnod rhwng 24 Ebrill a 20 Mai, cafwyd 38 o gyflwyniadau digartref. Ar 30 Mai, maen nhw'n cynnig 193 o unedau llety dros dro ac yn cefnogi bron i 300 o bobl.
Cyfyngwyd ar nifer y tai sydd ar gael wrth i'r sector twristiaeth adennill ei dir - mae'r newid yn nefnydd yr adeiladau hyn yn lleihau nifer y llety ychwanegol sydd ar gael.
Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cael peth llwyddiant o ran ailgartrefu cyflym a gosod pobl mewn eiddo a rentir yn breifat, ond yn anffodus nid yw nifer y lletyau'n tyfu mor gyflym â nifer y digartref. Fodd bynnag, bydd ychydig o brosiectau "tai cam dau" newydd yn dod i'r fei yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf gan ddarparu eiddo ychwanegol.

| | |
|---|---|
| | 5.2 **Merthyr** SS<br>Ar hyn o bryd, mae ganddyn nhw 160 mewn lletyau dros dro a 110 arall mewn sefydliadau Gwely a Brecwast - o'r nifer hwn, mae 90% yn bobl sengl. Mae yna hefyd nifer uchel o gyflwyniadau gan droseddwyr. Mae'n frwydr i ddarparu ar gyfer pob cyflwyniad newydd ac i ddod o hyd i "letyau camu ymlaen" digonol ac felly, mae yna restr aros. Ceir cefnogaeth dda gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ac maen nhw'n cael blaenoriaeth ar bob eiddo.<br>Bydd prosiect a gafodd Gyllid Cam 2 LlC yn arwain at greu ychydig o leoedd.<br>Cyflogwyd staff ychwanegol er mwyn cwmpasu'r cyfnod hwn ac mae'r pwyslais ar hyn o bryd ar ddatblygu Strategaeth Tai a Digartrefedd newydd ar gyfer y Sir.<br><br>5.3 **RhCT** CE<br>Mae 144 o leoliadau Gwely a Brecwast yn RhCT. Bu cynnydd yn nifer y benywod digartref. Mae rhywfaint o "letyau camu ymlaen" wedi'u cynnwys mewn amryw o opsiynau tai. Mae landlordiaid preifat yn cefnogi'r ymdrechion i gartrefu'r digartref. Mae rhai pobl wedi'u troi allan o'r sector rhentu preifat wrth i gyfyngiadau ddiflannu. Mae pryder ynghylch y cynnydd amlwg posibl yn y maes hwn, ac amcenir y bydd mwy yn ddigartref o hyn allan. Mae'r system yn cael ei hymestyn ac mae llawer o'r achosion sy'n peri pryder yn gysylltiedig â chleientiaid ag anghenion cymhleth.<br><br>Fe gydnabu'r Cyng GT y pryderon ynghylch y sefyllfa dai gan sôn am yr ymgais i gynllunio a chefnogi'r ymdrechion cyfredol i ddod â digartrefedd i ben mewn modd strategol. Bydd ffocws y dyfodol ar ddarparu tai cymdeithasol ac ar ddatblygu cartrefi priodol i bobl ag anghenion cymhleth.<br><br>**Pwyntiau eraill o ddiddordeb a godwyd:**<br>• Mae yna heriau ac anawsterau wrth brynu'n lleol. Mae llawer o dai yn cael eu prynu am bris uchel gan fuddsoddwyr wrth iddynt hwythau ymuno â'r farchnad.<br>• Mae'r cyllid mewn perthynas â'r Grant Tai Cymdeithasol wedi cynyddu.<br>• Bernir nad yw llawer o'r stoc dai yn ffit ar gyfer y dyfodol ac felly bydd angen eu haddasu neu'u disodli.<br>• Mae meithrin perthynas â phartneriaid allweddol yn hanfodol i lwyddiant y dasg o ddarparu tai a chefnogaeth briodol i bawb sy'n ddigartref. |
| 6 | **Diweddariadau Partneriaid a Rhanddeiliaid**<br>6.1 Diweddariad Darparwr LG<br>Roedd gan Fforwm Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg nifer cynyddol o fynychwyr y chwarter hwn. Amlinellodd LG y pwyntiau a godwyd yng nghyfarfod y darparwr cymorth tai hwn:<br>• Mae Cymorth yn ceisio gwella llwyddiant y recriwtio i'r sector tai. Mae'n ystyried ffyrdd o broffesiynoli rolau'r sector hwn a chreu llwybrau gyrfa broffesiynol ar eu cyfer.<br>• Cydnabyddir bod gan lawer o ddarpar weithwyr sgiliau trosglwyddadwy.<br>• Cafwyd trafodaeth yn y Fforwm ynghylch y codiad a roddwyd yn ddiweddar gan awdurdodau lleol i fudd-daliadau'r staff cymorth. Roedd rhai darparwyr wedi cael y meini prawf cymhwysedd yn anodd eu derbyn, ac roeddent yn cydnabod nad oedd y budd-dal hwn wedi'i gyflwyno mewn ffordd gyson ar draws Cymru.<br>• Mae angen o hyd am ryw fath o ddarpariaeth ar gyfer tywydd oer, a mynegodd darparwyr eu pryder o ran eu gallu i gartrefu pawb sy'n ddigartref yn briodol yn ystod y gaeaf nesaf. Bydd Cymorth yn dychwelyd y pwynt hwn i Lywodraeth Cymru.<br>• Gofynnodd aelodau'r Fforwm am gyflwyniad ar y prosiect arbenigol newydd sef Tai, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, yn eu cyfarfod chwarterol nesaf.<br>6.2 Diweddariad y Landlordiaid - Ni chafwyd adroddiad na phresenoldeb landlord yn y cyfarfod hwn.<br>6.3 Diweddariad LCC TT - rhoddodd ei ymddiheuriadau ac nid oedd yn bresennol.<br>*Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan asiantaethau partner: Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau, VAWDASV, y Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, llais defnyddiwr gwasanaeth, ac ati)* |

| | |
|---|---|
| 7 | **Datblygiad Rhanbarthol GCCTRh 21/22**<br>*Sut gall asiantaethau weithio gyda'i gilydd yn well er mwyn cynorthwyo cleientiaid sydd mewn argyfwng ac a allai ddod yn ddigartref?*<br><br>Rhoddodd y grŵp ystyriaeth i ddatblygu gweithdy amlasiantaethol rhanbarthol ar gyfer 2021/22 sy'n cynnwys aelodau perthnasol o'r GCCTRh. Bydd canlyniadau'r digwyddiad "gorchwyl a gorffen" hwn yn cyfrannu at wella a datblygu prosiectau a ariennir gan y GCT i'r dyfodol.<br><br>Arweiniodd trafodaeth y grŵp at yr awgrymiadau canlynol:<br><br>Ffocws y gweithdy: **"Sut gellir cynorthwyo'r cleientiaid mwyaf cymhleth?"**<br><br>**Rhaid ystyried y canlynol:**<br>• Astudiaethau achos o gleientiaid sydd wedi profi i fod yr anoddaf i'w gwasanaethu o ran tai a llesiant.<br>• Awgrymiadau a sylwadau ynghylch y sefyllfa gan y rhai sy'n ei chael hi'n anodd ffitio i mewn i'r system gyfredol, e.e. "Sut mae canlyniad da yn edrych i chi?"<br>• Y bobl na lwyddodd i ddiwallu'u hanghenion trwy ddod o hyd i ateb boddhaol o dan y system bresennol.<br>• Ystyried beth arall y gellir ei gynnig.<br>• Beth arall allen nhw ei gynnig?<br><br>**Mae potensial i archwilio atebion creadigol fel:**<br>• Opsiynau tai mwy amrywiol.<br>• Datrysiadau aml-asiantaeth.<br>• Newid sylfaenol gan gynnwys syniadau a dulliau newydd.<br><br>**Gellir defnyddio'r data canlynol i lywio'r drafodaeth:**<br><br>• Asesiad Cyflym o Anghenion Iechyd y digartref o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.<br>• Roedd yr adroddiadau'n ymwneud ag Arolygon Defnyddwyr a Rhanddeiliaid y GCT 2020.<br><br>**Camau Gweithredu:** Ni chytunwyd ar ddyddiad y digwyddiad hwn eto (Hydref 2021). Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i fod yn bresennol. |
| 8 | **UFA**<br>Gwnaed cais i wahodd cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru fel y gall barhau i ymwneud yn weithredol â'r grŵp. Ni chafwyd unrhyw bresenoldeb gan LlC ers i'r grŵp ddod yn GCCTRh. |
| 9 | **Dyddiadau Cyfarfod:** Ch3 dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2021<br>Ch4 dydd Mercher, 2 Mawrth 2021 |

**No need for translation below  Thanks**

**9th June 2021**

| Attendees | | Representing |
|---|---|---|
| Cllr Rhys Lewis (Chair) | RL | RCTCBC |
| Bosley, Kelly | KB | Probation |
| Ceri Ford | CF | APB Substance Misuse |
| Cheryl Emery | CE | Housing RCTCBC |
| Cllr Dhanisha Patel | DP | BCBC |
| Cllr Geraint Thomas | GT | MCBC |
| Deborah Evans | DE | VAWDASV |
| Flower Kim | KF | Regional Development Coordinator (Minutes) |
| Hannah Mills | HM | HSG MCBC |
| Jessica Ware | JW | HSG BCBC |
| Lorraine Griffiths | LG | Provider Rep |
| Morgan, Lowri | LM | Principle manager for accommodation. MCBC |
| Preece Sue | SP | HSG MCBC |
| Ryan Jones | RJ | HSG BCBC |
| Suzanne Stephens | SS | Housing MCBC |
| | | |
| Apologies | | |
| Claire Beynon | CB | Public Health Wales |
| Davies Louise | LD | SS RCT |
| Elis Jennifer | JE | RHA (deputy to LT) |
| Evans, Eirian | EE | Probation |
| Gronow Rachel | RG | RCTCBC |
| Julie McCarthy | JMC | Housing rep RPB |
| Louise Davies | LD | RCTCBC |
| Luke Takeuchi | LT | RPB Housing Rep |
| Lynne Berry | LB | BCBC |
| Melinda Miller | MM | CCG |
| Natalie Morgan Thomas | NT | CTM LHB < |
| Paul Mee | PM | SS RCTCBC |
| Rachel Honey Jones | RHJ | Housing rep RPB |
| Sarah O'Keefe | SO'K | Landlord Rep |
| Suzanne Lewis-Abbott | SLA | MCBC |
| Tim Thomas | TT | Private rented sector |
| | | |